OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2003 Rhif 1967 (Cy.212)

# ANIFEILIAID, CYMRU

## IECHYD ANIFEILIAID

## Gorchymyn Crynoadau Anifeiliaid (Cymru) 2003

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'i wneud* | - - | *29 Gorffennaf 2003* |
| *Yn dod i rym* | - - | *1 Awst 2003* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol, yn gweithredu ar y cyd wrth arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 1, 7, 8 ac 83 o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981(**1**), yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

### Enw, cymhwyso a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Crynoadau Anifeiliaid (Cymru) 2003; mae'n gymwys i Gymru a daw i rym ar 1 Awst 2003.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn —

ystyr “anifeiliaid” (“*animals*”) yw gwartheg (ac eithrio buail ac iacod), ceirw, geifr, defaid a moch;

mae i “ardal i anifeiliaid” (“*animal area*”) yr ystyr a roddir yn erthygl 4(3)(c);

ystyr “crynhoad anifeiliaid” (“*animal gathering*”) yw achlysur pan gaiff anifeiliaid eu crynhoi ynghyd er mwyn —

(a) gwerthiant, sioe neu arddangosfa;

(b) eu hanfon ymlaen o fewn Prydain Fawr i'w magu ymhellach, eu pesgi neu eu lladd;

(c) archwiliad i gadarnhau bod gan yr anifeiliaid nodweddion brid penodol;

mae “cyfarpar” (“*equipment*”) yn cynnwys corlannau a chlwydi; ac

(**1**) 1981 p.22. Trosglwyddwyd swyddogaethau a roddwyd o dan Ddeddf 1981 i “*the Ministers*” (fel y'u diffinnir yn adran 86 o'r Ddeddf honno) i'r graddau yr oeddent yn arferadwy gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru mewn cysylltiad â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (OS1999/672). Trosglwyddwyd swyddogaethau ar y cyd “the Ministers” a oedd yn arferadwy gan Ysgrifennydd Gwladol yr Alban mewn cysylltiad â Chymru i'r Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd gan Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau (Amaethyddiaeth a Bwyd) 1999 (O.S. 1999/3141). Trosglwyddwyd pob swyddogaeth y Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd wedi hynny i'r Ysgrifennydd Gwladol gan Orchymyn y Weinyddiaeth Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd (Diddymu) 2002 (O.S. 2002/794).

ystyr "diheintydd a gymeradwywyd" ("*approved disinfectant*") yw diheintydd a gymeradwywyd o dan Orchymyn Clefydau Anifeiliaid (Diheintyddion a Gymeradwywyd) 1978(**2**) sydd o'r cryfder y mae ei angen o dan y Gorchymyn hwnnw yn "gorchmynion cyffredinol".

**Eithriadau**

**3.** Nid yw'r Gorchymyn hwn yn gymwys os—

(a) yr un person sy'n berchen ar bob anifail y daethpwyd ag ef i'r crynhoad;

(b) bydd yr anifeiliaid i gyd yn dod o un grŵ p o safleoedd y mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi ei awdurdodi fel grŵp meddiannaeth unigol o dan Orchymyn Rheoli Clefydau (Cymru) 2003(**3**); ac

(c) bydd y crynhoad anifeiliaid yn digwydd ar safle y mae perchennog yr anifeiliaid yn berchen arno neu yn ei feddiannu.

**Defnyddio safleoedd ar gyfer crynoadau anifeiliaid**

**4.**—(1) Ni chaiff neb ddefnyddio safle ar gyfer crynhoad anifeiliaid oni bai bod y safle hwnnw wedi ei drwyddedu i'r perwyl hwnnw gan arolygydd milfeddygol.

(a) (2) (a) Rhaid i drwydded o dan yr erthygl hon fod yn ysgrifenedig;

(b) Caiff trwydded o dan yr erthygl hon ei diwygio, ei hatal dros dro, neu ei dirymu drwy hysbysiad ysgrifenedig a roddir gan arolygydd milfeddygol; ac

(c) Caiff trwydded o dan yr erthygl hon fod yn ddarostyngedig i unrhyw amodau sydd, yn nhyb yr arolygydd milfeddygol, yn angenrheidiol i atal clefydau rhag cael eu cyflwyno neu eu lledaenu o fewn y safle trwyddedig neu allan ohono.

(3) Mae trwydded i bennu —

(a) enw'r trwyddedai;

(b) y safle lle y ceir cynnal crynhoad anifeiliaid; ac

(c) yr ardal y caiff yr anifeiliaid fynd arni ("ardal i anifeiliaid").

**Cyfyngiad 27 diwrnod ar gynnal crynhoad anifeiliaid**

**5.** Ni chaiff neb ganiatáu crynhoad anifeiliaid ar safle y mae anifeiliaid wedi cael eu cadw arno nes bydd 27 diwrnod wedi mynd heibio ers y diwrnod—

(a) y gadawodd yr anifail olaf y safle hwnnw; a

(b) ar ôl i'r anifail olaf adael y safle, y glanheir halogiad gweladwy oddi ar yr holl gyfarpar y mae'r anifeiliaid wedi cael mynd ato.

**Eithrio safleoedd ag ardal i anifeiliaid sydd wedi ei phalmantu o'r cyfnod cyfyngedig o 27 diwrnod**

**6.**—(1) Nid yw'r cyfyngiad yn erthygl 5 yn gymwys os yw'r ardal i anifeiliaid ar y safle trwyddedig wedi ei phalmantu â sment, concrid, asffalt neu unrhyw ddeunydd caled ac anhydraidd arall y mae modd ei lanhau a'i diheintio'n effeithiol, ac os yw'r ardal i anifeiliaid yn cael ei glanhau a'i diheintio ac y ceir gwared ar y gwastraff yn unol â'r erthygl hon cyn cynnal crynhoad anifeiliaid arall.

(2) Rhaid i'r glanhau a'r diheintio

(**2**) O.S. 1978/32 fel y'i diwygiwyd gan O. S. 1999/919 ac, o ran Cymru, O. S. 2001/641 (Cy.31).
(**3**) O.S. 2003/1966 (Cy. 211).

(a) beidio â dechrau nes bydd pob anifail wedi ei symud o'r rhan o'r ardal i anifeiliaid sy'n cael ei glanhau a'i diheintio; a

(b) gael ei gwblhau ar ôl i'r anifail olaf adael y safle trwyddedig a chyn i grynhoad anifeiliaid gael ei gynnal ar y safle eto.

(3) Rhaid ysgubo neu grafu'n lân pob rhan o'r ardal i anifeiliaid (gan gynnwys unrhyw gyfarpar), a'i glanhau drwy olchi a'i diheintio drwy ddefnyddio diheintydd a gymeradwywyd.

(4) Rhaid i'r trwyddedai sicrhau bod yr holl borthiant y mae'r anifeiliaid wedi cael mynd ato, a'r holl sarn, yr ysgarthion a'r deunydd arall sy'n deillio o anifeiliaid ac halogion eraill sy'n deillio o anifeiliaid sydd yn yr ardal i anifeiliaid, cyn gynted ag y bo modd a chyn i anifeiliaid gael mynd mewn i'r safle trwyddedig eto —

(a) yn cael eu distrywio;

(b) yn cael eu trin er mwyn sicrhau nad oes perygl y byddant yn trosglwyddo clefydau; neu

(c) yn cael eu gwaredu fel na chaiff anifeiliaid fynd atynt.

(5) Os, ar ôl yr achlysur diwethaf pan gafodd yr ardal i anifeiliaid ei glanhau a'i diheintio yn unol â'r erthygl hon, y'i halogir ag ysgarthion anifeiliaid neu ddeunydd arall sy'n deillio o anifeiliaid neu unrhyw halogyn sy'n deillio o anifeiliaid, rhaid ysgubo neu grafu'n lân yr ardal i anifeiliaid neu'r rhannau hynny ohoni sydd wedi eu halogi felly, a'u glanhau drwy olchi a thrwy ddefnyddio diheintydd a gymeradwywyd cyn i unrhyw anifeiliaid gael mynd ar y safle trwyddedig eto.

### Cyfyngiadau amser

**7.**—(1) Ni chaiff yr un crynhoad anifeiliaid a gynhelir at ddibenion —

(a) gwerthiant neu archwiliad a gynhelir ar safle y mae erthygl 6 yn gymwys iddo; neu

(b) llwyth i'w anfon ymlaen a drwyddedir o dan y Gorchymyn hwn,

barhau yn hwy na 48 awr.

(2) Bydd y cyfnod 48 awr yn dechrau ar ganol dydd a dod i ben ar ganol dydd y trennydd.

(3) Rhaid i'r trwyddedai sicrhau —

(a) na ddeuir â'r un anifail i'r safle cyn i'r cyfnod 48 awr ddechrau; a

(b) bod pob anifail yn cael ei symud o'r safle erbyn i'r cyfnod 48 awr ddod i ben.

(4) Caiff arolygydd milfeddygol, os yw wedi ei fodloni —

(a) bod angen gwneud hynny er lles yr anifeiliaid; neu

(b) mai bach yw'r perygl o gyflwyno clefydau yn y gwerthiant ac o ledaenu clefydau wedi hynny;

estyn y terfyn amser o 48 awr mewn cysylltiad â gwerthiant drwy roi hysbysiad ysgrifenedig.

### Dyletswyddau personau sy'n bresennol mewn crynhoad anifeiliaid

**8.** Pan gynhelir crynhoad anifeiliaid (heblaw mewn sioe neu arddangosfa) mae darpariaethau'r Atodlen (gofynion ynghylch crynhoad anifeiliaid) yn effeithiol.

### Cyfyngiadau yn sgil crynhoad anifeiliaid

**9.**—(1) Bydd darpariaethau'r erthygl hon yn gymwys pan fydd yr anifail olaf mewn crynhoad anifeiliaid wedi gadael y safle trwyddedig.

(2) Ni chaiff neb ganiatáu i anifeiliaid fynd ar y safle trwyddedig nes bydd halogion gweladwy wedi eu glanhau oddi ar yr holl gyfarpar yr oedd yr anifeiliaid yn y crynhoad yn cael mynd ato.

(3) Ni chaiff neb symud unrhyw gyfarpar y mae'r anifeiliaid wedi cael mynd ato o'r safle trwyddedig os—

(a) nad yw'r halogion gweladwy wedi eu glanhau oddi ar y cyfarpar ac os nad yw cyfnod 27 diwrnod wedi dod i ben ers i'r anifail olaf mewn crynhoad anifeiliaid adael y safle trwyddedig; neu

(b) nad yw'r cyfarpar wedi ei ysgubo neu ei grafu'n lân, ei lanhau drwy olchi a'i ddiheintio drwy ddefnyddio diheintydd a gymeradwywyd.

### Gorfodi

**10.**—(1) Yr awdurdod lleol sydd i orfodi'r Gorchymyn hwn.

(2) Caiff Cynulliad Cenedlaethol Cymru gyfarwyddo, mewn mathau penodol o achosion penodol neu unrhyw achos penodol, mai Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac nid yr awdurdod lleol, sydd i weithredu'r swyddogaeth orfodi a osodir ar awdurdod lleol o dan yr erthygl hon.

### Dirymu

**11.** Dirymir y canlynol—

(a) Gorchymyn Marchnadoedd, Gwerthiannau a Llociau 1925(**4**);

(b) Gorchymyn Marchnadoedd, Gwerthiannau a Llociau (Diwygio) 1926(**5**);

(c) Gorchymyn Marchnadoedd, Gwerthiannau a Llociau (Diwygio) 1927(**6**);

(ch) Gorchymyn Marchnadoedd, Gwerthiannau a Llociau (Diwygio) 1996(**7**);

(d) Gorchymyn Crynoadau Anifeiliaid (Mesurau Dros Dro) (Cymru) 2003(**8**).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru

*John Marek*
29 Gorffennaf 2003 — Y Dirprwy Lywydd

Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig
29 Gorffennaf 2003

*Ben Bradshaw*
Yr Is-ysgrifennydd Seneddol

(**4**) Rh. a G.S. 1925/1349.
(**5**) Rh. a G.S. 1926/546.
(**6**) Rh. a G.S. 1927/982.
(**7**) O.S. 1996/3265.
(**8**) O.S. 2003/481 (Cy.67).

## YR ATODLEN

Erthygl 8

Gofynion mewn crynhoad anifeiliaid

### Dyletswyddau trwyddedai

**1.**—(1) Rhaid i'r trwyddedai sicrhau bod unrhyw berson sy'n mynd ar y safle trwyddedig yn cael gwybod bod y safle'n drwyddedig o dan y Gorchymyn hwn, pa un ai trwy gyfrwng system o hysbysiadau y gwneir hynny neu mewn rhyw ffordd arall.

(2) Rhaid i'r trwyddedai ddarparu baddonau traed ac ynddynt ddiheintydd a gymeradwywyd wrth y ffyrdd allan o'r ardal i anifeiliaid ac wrth unrhyw fan llwytho a dadlwytho, a darparu cyfleusterau ar y safle trwyddedig ar gyfer newid, glanhau a diheintio dillad a gwaredu dillad y gellir eu taflu.

(3) Mae'n rhaid i'r trwyddedai—

(a) sicrhau mai yn yr ardal i anifeiliaid y caiff yr anifeiliaid eu dadlwytho a'u hail-lwytho, a

(b) sicrhau, i'r graddau y mae hynny'n rhesymol ymarferol, nad yw anifeiliaid yn gadael yr ardal i anifeiliaid ac eithrio ar gerbyd.

### Dyletswyddau personau sy'n bresennol mewn crynhoad anifeiliaid

**2.**—(1) Ni chaiff neb fynd ar safle trwyddedig yn gwisgo dillad allanol y mae arnynt arwyddion gweledol eu bod wedi'u halogi â charthion anifeiliaid neu halogion eraill sy'n deillio o anifeiliaid.

(2) Os bydd person yn yr ardal i anifeiliaid yn gwisgo dillad allanol ac arnynt arwyddion gweledol eu bod wedi eu halogi â charthion anifeiliaid neu halogion eraill sy'n deillio o anifeiliaid, rhaid iddo ar ei union ar ôl gadael yr ardal i anifeiliaid, lanhau halogi garw oddi ar ei ddillad (onid yw'r dillad i gael eu taflu) a naill ai—

(a) eu diheintio;

(b) newid y dillad am ddillad glân;

(c) eu taflu; neu

(ch) ymadael â'r safle trwyddedig.

(3) Os bydd person y tu allan i'r ardal i anifeiliaid yn gwisgo dillad allanol ac arnynt arwyddion gweledol eu bod wedi eu halogi â charthion anifeiliaid neu halogion eraill sy'n deillio o anifeiliaid, caiff arolygydd gyflwyno iddo hysbysiad yn rhoi iddo'r dewis o—

(a) glanhau y dillad allanol,

(b) newid y dillad am ddillad glân,

(c) gwaredu dillad y gellir eu taflu, neu

(ch) ymadael â'r safle trwyddedig a hynny ar ei union.

### Esgidiau i'w gwisgo yn yr ardal i anifeiliaid

**3.** Rhaid i unrhyw berson sy'n ymadael â'r ardal i anifeiliaid lanhau a diheintio ei esgidiau yn y baddon traed sydd wedi'i ddarparu.

### Cerbydau

**4.**—(1) Ni chaiff neb ddod ag unrhyw gerbyd nac offer a gludir ar y cerbyd hwnnw ar y safle trwyddedig na mynd â hwy oddi yno os ydynt wedi'u halogi â charthion anifeiliaid.

(2) Ni fydd y paragraff hwn yn gymwys i—

(a) unrhyw gerbyd neu offer sydd wedi'u halogi â charthion yr anifeiliaid a oedd yn cael eu cludo ar y cerbyd pan ddaethpwyd â'r cerbyd ar y safle trwyddedig;

(b) unrhyw gerbyd neu offer sydd wedi'u halogi â charthion anifeiliaid sydd wedi cael eu dadlwytho o'r cerbyd ar y safle trwyddedig;

(c) unrhyw gerbyd neu offer y daethpwyd â hwy yn unswydd er mwyn eu glanhau a'u diheintio, os yr eir â hwy yn unionsyth i'r cyfleusterau glanhau a diheintio yn ddi-oed ar ôl cyrraedd y safle.

---

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn dirymu ac yn disodli Gorchymyn Crynoadau Anifeiliaid (Mesurau Dros Dro) (Cymru) 2003. Dyma'r newidiadau y mae'n eu gwneud i'r Gorchymyn hwnnw —

- mae'n ehangu diffiniad "crynoadau anifeiliaid" i gynnwys anifeiliaid a ddaethpwyd ynghyd i'w harchwilio er mwyn sicrhau bod ganddynt nodweddion brid penodol (erthygl 2);
- mae'n gwneud darpariaeth ar gyfer safleoedd mewn grŵ p meddiannaeth unigol (erthygl 3);
- mae'n gosod terfyn amser 48 awr ar grynoadau anifeiliaid at ddibenion gwerthu ac anfon anifeiliaid ymlaen o fewn Prydain Fawr er mwyn eu lladd, eu magu ymhellach neu eu pesgi. Caiff arolygydd milfeddygol estyn y terfyn amser ar werthiannau anifeiliaid os bydd angen gwneud hynny er lles yr anifeiliaid neu os bach yw'r perygl o gyflwyno salwch yn y gwerthiant neu wrth anfon anifeiliaid ymlaen wedi hynny (erthygl 7);
- mae'n ehangu paragraff 4 o'r Atodlen i gynnwys ysgarthion anifeiliaid sydd wedi cael eu dadlwytho o gerbyd mewn safle trwyddedig. Mae hefyd yn darparu mai at ddibenion glanhau a diheintio cerbyd yn unig y caiff cerbydau neu gyfarpar sydd wedi eu halogi ag ysgarthion anifeiliaid fynd i mewn i safle trwyddedig.

Mae'n ei gwneud yn ofynnol cael trwydded am grynoadau anifeiliaid, fel y bu hi'n ofynnol eisoes (erthygl 4). Mae'n pennu na cheir cynnal crynhoad anifeiliaid os nad yw'n digwydd 27 diwrnod ar ôl i'r anifail olaf adael y safle hwnnw ac ar ôl i halogiad gweladwy gael ei lanhau oddi ar gyfarpar ar y safle hwnnw (erthygl 5). Os ar safle wedi ei balmantu y cynhelir y crynhoad, mae erthygl 6 yn gwneud darpariaeth ar gyfer glanhau a diheintio'r safle hwnnw ac yn caniatáu cynnal crynhoad o fewn y terfynau amser arferol. Mae'n gosod dyletswyddau ar bersonau sy'n mynd i grynhoad anifeiliaid (erthygl 8 a'r Atodlen). Mae'n gosod cyfyngiadau yn sgil crynhoad anifeiliaid (erthygl 9).

Mae'n dirymu Gorchymyn Marchnadoedd, Gwerthiannau a Llociau 1925 (Rh. & G.S. 1925/1349) a'r offerynnau sy'n ei ddiwygio (erthygl 11). Yr awdurdod lleol sy'n ei orfodi (erthygl 10).

Mae methu cydymffurfio â'r Gorchymyn yn dramgwydd o dan adran 73 o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981, ac mae'r gosb yn unol ag adran 75 o'r Ddeddf honno.

Mae Arfarniad Rheoliadol wedi ei baratoi a'i roi yn llyfrgell y Cynulliad Cenedlaethol . Ceir copïau oddi wrth Is-adran Iechyd Anifeiliaid, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.